Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cyfres Cynllunio:
# 11 – Asesiad Amgylcheddol Strategol

**Hysbysiad Hwylus** **Rhagfyr 2012**

## Beth yw asesiad amgylcheddol strategol?

Mae **Asesiad Amgylcheddol Strategol** yn broses sy'n edrych ar effeithiau tebygol **cynlluniau neu raglenni** ar yr amgylchedd, cyn y cânt eu mabwysiadu. Pan fydd angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol, rhaid i berson sy'n paratoi cynlluniau gynnal asesiad a chyflwyno canfyddiadau'r asesiad mewn adroddiad amgylcheddol yr ymgynghorir arno wedyn. Rhaid i berson sy'n paratoi cynlluniau ystyried unrhyw faterion sy'n codi yn ystod yr ymgynghoriad cyn y gellir mabwysiadu'r cynllun. Y nod yw integreiddio Asesiad Amgylcheddol Strategol â chamau datblygu cynllun neu raglen, a dylanwadu ar bob rhan o'r broses benderfynu.[1]

## Pryd y bydd yn ofynnol cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol?

Darperir fframwaith ar gyfer y broses o wneud Asesiad Amgylcheddol Strategol gan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd 42/2001/EC ar yr asesiad o effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Daeth y Gyfarwyddeb hon i rym ar gyfer cynlluniau a rhaglenni yng Nghymru yn unig yn sgîl ***Y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004***[2] ac ar gyfer cynlluniau neu raglenni sy'n gweithredu'n rhannol yng Nghymru neu mewn rhannau eraill o'r DU ond sy'n effeithio ar Gymru drwy ***Y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.***[3]

Nid oes rhestr bendant o gynlluniau a rhaglenni a gaiff eu cynnwys yn y rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, ond rhaid ystyried pob achos yn unigol. Y **sefydliad sy'n paratoi'r cynllun neu'r rhaglen** sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r rhaglen neu'r cynllun wedi'i gynnwys yn y rheoliadau. Yn fras, fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad ar gyfer cynlluniau a rhaglenni:

- A gaiff eu paratoi gan **awdurdodau cyfrifol**[4] ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigoedd, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnyddio tir; a
- Sy'n gosod y **fframwaith** ar gyfer caniatâd i ddatblygu yn y dyfodol (e.e. Datganiad Polisi Morol y DU).

Dylid cynnal asesiad ar gyfer cynlluniau neu raglenni sydd i gael eu mabwysiadu drwy **Ddeddf Senedd y DU neu is-ddeddfwriaeth**, er enghraifft, rheoliadau. Mae'n anarferol mabwysiadau cynlluniau neu raglenni yn y modd hwn yn y DU, er y caiff y gweithdrefnau deddfwriaethol hyn eu defnyddio mewn rhai o Aelod-wladwriaethau'r UE.[5]

Yn ogystal, mae'n ofynnol i gynllun neu raglen lle mae asesiad yn ofynnol o dan **Gyfarwyddeb Cynefinoedd** yr UE gael Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd. Dim ond os bydd cynllun neu raglen yn **effeithio'n sylweddol ar yr**

[1] Llywodraeth Cymru, ***Asesiad Amgylcheddol Strategol***, 29 Awst 2006 [fel ar 17 Hydref 2012]
[2] ***Y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004,*** SI 2004/1633 [fel ar 11 Rhagfyr 2012]
[3] ***Y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004,*** SI 2004/1633 [fel ar 11 Rhagfyr 2012]
[4] Y rhai sy'n paratoi cynlluniau a rhaglenni sy'n ddarostyngedig i'r gyfarwyddeb a chan y rhai, neu ar ran y rhai, y paratoir Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer cynllun neu raglen
[5] Llywodraeth y DU, ***A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive***, Medi 2005 [fel ar 21 Tachwedd 2012]

**amgylchedd** y bydd cynllun neu raglen o'r fath sy'n nodi penderfyniad ynghylch y defnydd o ardal fach, neu sy'n addasiad bach i gynllun neu raglen, yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol. **Nid oes angen cynnal** Asesiad Amgylcheddol Strategol o gynllun neu raglen sydd at ddiben amddiffyn gwladol neu argyfwng sifil yn unig, neu gynllun neu raglen ariannol neu gyllidebol.

Mae Atodiad 1 o'r **Canllaw Ymarferol o'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol** yn cynnwys rhestr sy'n dangos y cynlluniau a'r rhaglenni y barnwyd eu bod yn ddarostyngedig i'r gyfarwyddeb ac mae hefyd yn nodi'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r Gyfarwyddeb.

## Sgrinio

**Sgrinio** yw'r broses ar gyfer pennu a oes angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol o gynllun neu raglen. Mae angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o rai cynlluniau yn awtomatig oherwydd ei bod yn amlwg eu bod yn bodloni'r meini prawf fel y'u diffinir yn y Gyfarwyddeb, tra bydd angen i gynlluniau eraill ac addasiadau i rai cynlluniau presennol fod yn destun proses sgrinio, er mwyn penderfynu arnynt ar sail achosion unigol. Pan gaiff gofyniad am Asesiad Amgylcheddol Strategol ei bennu ar sail achos unigol, rhaid i'r sawl sy'n paratoi'r cynllun ymgynghori â'r **Cyrff Ymgynghori Statudol (Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gyfer cynlluniau a rhaglenni yng Nghymru yn unig, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau sy'n gweithredu'n rhannol yng Nghymru neu sy'n gweithredu mewn rhannau eraill o'r DU ond sy'n effeithio ar Gymru[6])**. Mae Atodiad II o'r Gyfarwyddeb yn nodi meini prawf arwyddocâd' er mwyn arwain y sawl sy'n paratoi'r cynllun a'r Cyrff Ymgynghori Statudol drwy'r cam hwn o'r broses.[7] Cynlluniwyd yr **ymgynghoriad sgrinio** i gael clywed barn y Cyrff Ymgynghori Statudol ynghylch a yw'n debygol y caiff y cynllun arfaethedig effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Pan gynhelir ymgynghoriad sgrinio, mae'n ofynnol i'r sawl sy'n paratoi'r cynlluniau i gyflwyno **penderfyniad sgrinio**, a bydd rhaid iddo fod ar gael i'r cyhoedd ei weld.

# Beth yw'r camau ar gyfer cwblhau Asesiad Amgylcheddol Strategol?

Mae'r rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod rhai cynlluniau a rhaglenni arfaethedig a allai effeithio ar yr amgylchedd, yn cael eu hasesu o ran eu heffaith debygol. Cyflwynir canfyddiadau'r asesiad mewn **Adroddiad Amgylcheddol**. Cyn cwblhau Adroddiad Amgylcheddol, rhaid i'r sawl sy'n paratoi'r cynllun ymgynghori â Chyrff Ymgynghori Statudol Cymru (Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gyfer cynlluniau a rhaglenni yng Nghymru yn unig, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau sy'n gweithredu'n rhannol yng Nghymru neu sy'n gweithredu mewn rhannau eraill o'r DU ond sy'n effeithio ar Gymru[4]) i ofyn am gyngor ar y manylion y dylid eu hystyried yn yr Adroddiad. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau, ymgynghorir â'r cyhoedd yn ei gylch ochr yn ochr â drafft o'r cynllun, ac eto â'r Cyrff Ymgynghori Statudol. Rhaid i'r sawl sy'n paratoi'r cynllun ystyried y materion a godir yn yr adroddiad amgylcheddol ac yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn y caiff y cynllun ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Rhaid i'r sawl sy'n paratoi cynlluniau:

- Benderfynu, mewn ymgynghoriad â'r Cyrff Ymgynghori Statudol, pan fo angen, a yw cynllun neu raglen yn **ddarostyngedig i'r Rheoliadau** ac a oes angen cynnal **asesiad amgylcheddol**;
- Sicrhau y cynhelir asesiad amgylcheddol ac y cynhyrchir **Adroddiad Amgylcheddol**, sy'n cynnwys y cynigion yn y cynllun neu'r rhaglen, a'r dewisiadau amgen realistig;

[6] O 1 Ebrill 2013 bydd y corff Adnoddau Naturiol Cymru yn cymryd lle Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.
[7] Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, **Asesiad Amgylcheddol Strategol,** [fel ar 17 Hydref 2012]

- Ymgynghori â'r **Cyrff Ymgynghori Statudol** ar gwmpas yr Adroddiad Amgylcheddol (am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf);
- Ystyried yr **Adroddiad Amgylcheddol** a'r **ymatebion i'r ymgynghoriad** cyn mabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen;
- **Cyhoeddi gwybodaeth** am fabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen, gan gynnwys y modd yr ystyriwyd yr Adroddiad Amgylcheddol a'r ymatebion i'r ymgynghoriad; a
- **Monitro'r modd** y mae rhoi'r cynllun neu'r rhaglen[8] ar waith **yn effeithio ar yr amgylchedd**.

Dylai Asesiad Amgylcheddol Strategol gael ei ymgorffori'n llwyr yn y broses o lunio'r rhaglen neu'r cynllun, o'r cychwyn cyntaf ac ar bob un o'r camau penderfynu wedi hynny. Dylid defnyddio'r Asesiad hefyd i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer monitro'r modd y rhoddir y cynllun ar waith, a hynny er mwyn bod yn sail i'r achos nesaf o ddiwygio neu ddisodli .

## Beth y dylid ei gynnwys mewn Adroddiad Amgylcheddol?

Mae Atodlen 2 o'r Rheoliadau yn nodi pa wybodaeth y dylid ei darparu yn yr Adroddiad Amgylcheddol:

- Amlinelliad o'r cynnwys, prif **amcanion y cynllun neu'r rhaglen**, a chysylltiadau â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill;
- Agweddau perthnasol ar **gyflwr presennol yr amgylchedd, a'i gyflwr tebygol yn y dyfodol** pe na bai'r cynllun neu'r rhaglen yn cael ei roi ar waith;
- **Nodweddion amgylcheddol** yr ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol;
- **Problemau amgylcheddol presennol** sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen;
- **Amcanion o ran gwarchod yr amgylchedd**, ar lefel genedlaethol, yr UE neu ar lefel ryngwladol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r modd yr ystyriwyd yr amcanion hynny;
- **Effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd**; gan gynnwys bioamrywiaeth, y boblogaeth, iechyd dynol, ffawn, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsawdd, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol, tirwedd a pherthynas y ffactorau hyn â'i gilydd. Dylai'r effeithiau hyn gynnwys effeithiau eilaidd, cronnol, effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor, effeithiau parhaol a thros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau rhyngweithiol;
- Mesurau a ragwelir ar gyfer **atal, lleihau a gwrthbwyso** unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd a ddaw yn sgîl rhoi'r cynllun neu'r rhaglen ar waith;
- Amlinelliad o'r rhesymau dros **ddewis y dewisiadau amgen** yr ymdrinwyd â hwy, a disgrifiad o'r modd y cynhaliwyd yr asesiad, gan gynnwys unrhyw anawsterau a brofwyd wrth gasglu'r wybodaeth;
- Disgrifiad o'r camau a ragwelir o ran **monitro**; a
- **Chrynodeb annhechnegol** o'r wybodaeth a ddarparwyd.

Mae'r **Canllaw Ymarferol o'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol** (Saesneg yn unig) yn cynnwys nifer o awgrymiadau o ran ffynonellau gwybodaeth amgylcheddol berthnasol.

[8] Llywodraeth Cymru, **Asesiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru,** 2 Medi 2008 [fel ar 12 Tachwedd 2012]

## Beth fydd yn digwydd pan fabwysiedir cynllun neu raglen?

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl mabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen, rhaid i'r awdurdod cyfrifol:

- Sicrhau bod copi o'r cynllun neu'r rhaglen a'r adroddiad amgylcheddol sy'n cyd-fynd ag ef **ar gael i'w archwilio** gan y cyhoedd yn ei brif swyddfa;
- **Tynnu sylw'r** cyhoedd at deitl y cynllun neu'r rhaglen; y dyddiad y'i mabwysiadwyd; y cyfeiriad ble y mae modd gweld copi o'r cynllun a'r adroddiad amgylcheddol sy'n cyd-fynd ag ef; yr amseroedd y mae modd archwilio'r dogfennau; a nodi y gellir archwilio'r dogfennau am ddim;
- **Rhoi gwybod i'r Cyrff Ymgynghori Statudol**; yr ymgyngoreion o blith y cyhoedd; Llywodraeth Cymru; ac
- Egluro ym mha fodd yr **ystyriwyd** yr ymatebion i'r ymgynghoriad**.**

### Monitro

Rhaid i'r awdurdod cyfrifol f0nitro'r dasg o roi pob cynllun neu raglen ar waith, er mwyn nodi'n gynnar unrhyw effeithiau niweidiol annisgwyl, ac er mwyn gallu cymryd camau unioni priodol. Mae gwaith monitro hefyd yn cyfrannu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer llunio cynlluniau neu raglenni yn y dyfodol.

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr **Asesiad Amgylcheddol Strategol**, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- OS 2004/1656 (W.170) ***Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004*** (Saesneg yn unig)
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon, **Canllaw Ymarferol o'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol** (Saesneg yn unig)

**Hysbysiadau Hwylus eraill yn ymwneud â maes cynllunio a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil:**

- **Polisi Cynllunio Cenedlaethol** ;
- **Polisi Cynllunio Lleol yng Nghymru**;
- **Datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt**;
- **Caniatâd Cynllunio**;
- **Galw ceisiadau cynllunio i mewn**;
- **Apeliadau**;
- **Gorfodi**;
- **Offer Teleathrebu**
- **Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy Graddfa Fach**
- **Asesu Effeithiau Amgylcheddol**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 12/2692**
**Georgette Kluiters**